# Adroddiad Cwrs. Cyflwyniad i Rywogaethau o Wenyn; 6ed Awst 2016, Felin Puleston, Erddig




Gyda diddordeb cynyddol yn ein pryfed peillio brodorol, cynhaliwyd cwrs adnabod rhywogaethau o wenyn mewn lleoliad newydd i Cofnod: Felin Puleston, Erddig.

Denodd y cwrs poblogaidd yma 13 o bobl a'r arweinydd oedd Carl Clee o Amgueddfa'r Byd yn Lerpwl.

Dechreuodd Carl y cwrs drwy roi sgwrs gyda lluniau i ni ar yr holl rywogaethau o wenyn ym Mhrydain. Cawsom gyfle i ddysgu am eu gwahanol ecoleg, eu hymddygiad a'u nodweddion adnabod.

Wedyn buom yn archwilio'r glaswelltir yn yr ardal, ond prin iawn oedd y gwenyn a welwyd. Doedd y ffaith bod llawer o'r planhigion sy'n blodeuo wedi bwrw had eisoes ddim yn helpu. Gwelsom sawl cacynen, a hefyd gwenyn mêl ac ambell rywogaeth o Andrena.

Ar ôl dychwelyd i'r labordy, aethom ati i geisio deall yr allweddi sy'n cael eu defnyddio i adnabod rhywogaethau o wenyn. Roedd Carl wedi dod â hambyrddau o esiamplau o'r amgueddfa i ni eu harchwilio. Roedd yr esiamplau yma'n adnodd rhagorol ac yn gyfle i ni weld amrywiaeth eang iawn o rywogaethau ar y diwrnod (mae gan lawer o'r rhywogaethau wahanol gyfnodau hedfan ac ni fyddai wedi bod yn bosib dod o hyd iddyn nhw i gyd yn ystod un diwrnod).



Drwy gynnal y cwrs yn nwyrain ardal Cofnod, roedd cyfle i grŵp gwahanol o bobl fynychu'r digwyddiad yma.

Gobeithio bod y cwrs cyflwyniadol yma wedi rhoi hyder a sgiliau i bobl i ddal ati i adnabod rhywogaethau y flwyddyn nesaf.



cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP